Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar ddarpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned

## Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Abertawe

**Dinas a Sir Abertawe**
**Neuadd y Sir**
**Heol Ystumllwynarth**
**Abertawe**
**SA1 3SN**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2022**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Phartneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Abertawe

Caiff darpariaeth dysgu oedolion yn Abertawe ei chydlynu trwy Bartneriaeth Dysgu Oedolion Abertawe (ALPS). Caiff y brif ddarpariaeth dysgu oedolion a ariennir gan Lywodraeth Cymru ei chyflwyno gan Wasanaeth Dysgu Gydol Oes y Cyngor ac Addysg Oedolion Cymru. Mae Coleg Gŵyr Abertawe yn darparu rhaglen o gyrsiau oedolion a gyflwynir gan ddefnyddio cyllid addysg bellach ran-amser. Mae'r bartneriaeth yn dod ag ystod o sefydliadau eraill ynghyd sy'n darparu addysg oedolion, gan gynnwys Prifysgol Abertawe, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe (SCVS) a Dysgu Cymraeg Cymru.

Mae'r bartneriaeth yn cyflwyno ystod eang o gyrsiau ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned. Mae mwyafrif y ddarpariaeth yn cynnwys Saesneg ar gyfer siaradwyr ieithoedd eraill (SSIE) a chyrsiau addysg sylfaenol oedolion, tra bod y coleg a Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes y Cyngor yn cynnig darpariaeth yn y celfyddydau gweledol a chreadigol.

Dywed cyfrifiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol 2021 fod tua 238,500 o bobl yn byw yn Abertawe, ac yn ôl y data sydd ar gael, gostyngodd poblogaeth Abertawe tua 0.2% rhwng cyfrifiadau 2001 a 2011. O'r boblogaeth bresennol, mae tua 48,900 yn 65 oed neu'n hŷn (20.5%). Abertawe yw'r awdurdod lleol mwyaf ond un yng Nghymru, ac mae'n cyfrif am 7.7% o gyfanswm poblogaeth Cymru.

Yn 2021, y gyfradd cyflogaeth yn Abertawe oedd 70.3%, sydd ychydig islaw cyfartaledd Cymru, sef 72.1%. Yn 2021, cyfradd yr enillion wythnosol gros (canolrif) cyfartalog yn Abertawe oedd £549.50. Nododd Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) 2019 fod 11.5% o ardaloedd lleol Abertawe yn disgyn o fewn y 10% uchaf o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Mae mwyafrif trigolion Abertawe o gefndir ethnig gwyn (91.8%). Mae cyfrifiad 2021 yn dangos bod canran y siaradwyr Cymraeg yn Abertawe wedi aros yn 11.2% yn 2021. Yn 2021, roedd tua 350 yn llai o drigolion Abertawe (3 oed ac yn hŷn) yn siarad Cymraeg o gymharu â 2011. Cynyddodd nifer y bobl nad oeddent yn siarad Cymraeg gan 1,100.

Yn 2021, yn gyffredinol, mae'r boblogaeth oedran gweithio yn Abertawe yn fwy cymwys na chyfartaledd Cymru. Mae wyth deg tri pwynt wyth y cant o oedolion (18-64 oed) yn gymwys i lefel 2 neu'n uwch, sydd 2.2 pwynt canran uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, mae 65.9% yn gymwys i lefel 3 neu'n uwch, sydd 3.4 pwynt canran uwchlaw cyfartaledd Cymru, a 42.5% yn gymwys i lefel 4 neu'n uwch, sydd 0.9 pwynt canran uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.

Mae 1,639 o ddysgwyr wedi cofrestru ar gyrsiau yn y bartneriaeth ALPS.

## Crynodeb

Mae Partneriaeth Dysgu Oedolion Abertawe (ALPS) yn gweithio'n dda i ddarparu ystod eang o gyrsiau achrededig ac anachrededig ar draws dinas a sir Abertawe i ddiwallu anghenion dysgu amrywiol y dysgwyr. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae dysgwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn dda ac yn gwneud cynnydd cadarn neu well yn eu dysgu.

Gweithiodd y rhwydwaith o ddarparwyr dysgu oedolion yn y gymuned yn gydwybodol trwy'r pandemig i roi modd a chymorth i ddysgwyr oresgyn ynysigrwydd a chynnal cysylltiad â dysgu. Mae'r bartneriaeth yn parhau i weithio'n effeithiol gyda dysgwyr i'w cynorthwyo wrth iddynt ymgysylltu o'r newydd â dysgu wyneb yn wyneb, er enghraifft trwy gyrsiau â phris gostyngedig y caiff medrau llythrennedd, rhifedd a digidol eu gwreiddio ynddynt. Fel rhan o fod yn Ddinas Noddfa, mae'r bartneriaeth wedi ymateb yn gyflym ac yn effeithiol i niferoedd cynyddol y dysgwyr Saesneg ar gyfer siaradwyr ieithoedd eraill (SSIE). Mae'r bartneriaeth wedi ymestyn ei chyrsiau SSIE lefel uwch i gynnwys agweddau ar addysg alwedigaethol. Mae hyn wedi'i anelu at roi cyfleoedd i ddysgwyr SSIE gymhwyso eu Saesneg mewn sefyllfa waith.

Mae gan y bartneriaeth strwythur clir ar gyfer arweinyddiaeth a rheolaeth. Fodd bynnag, mae arweinwyr strategol yn cydnabod bod angen cyfeiriad strategol newydd i fodloni heriau presennol. Mae grŵp gweithredol y bartneriaeth yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i gydlynu darpariaeth. Fodd bynnag, nid oes cynllun cyffredinol ar gyfer y cwricwlwm, ac nid oes darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Ni chaiff y Gymraeg a'i diwylliant eu gwreiddio yn y cwricwlwm. Yn ychwanegol, nid oes map clir o lwybrau cynnydd.

Mae pob darparwr yn y bartneriaeth yn darparu dysgu proffesiynol rheolaidd ar gyfer ei diwtoriaid i ddatblygu eu haddysgu wyneb yn wyneb ac ar-lein. Mae pob partner yn sicrhau ansawdd ei ddarpariaeth ei hun. Fodd bynnag, nid yw'r bartneriaeth yn arsylwi a monitro ar draws y bartneriaeth i feithrin dealltwriaeth ar y cyd o ansawdd cyffredinol ei darpariaeth.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod y grŵp strategol yn cyfarfod yn rheolaidd i ddarparu cyfeiriad clir ar gyfer Partneriaeth Dysgu Oedolion Abertawe, a monitro cynnydd ei gweithredu

A2 Gweithredu system mapio'r cwricwlwm i egluro i arweinwyr, tiwtoriaid a dysgwyr beth yw'r llwybrau cynnydd o fewn darparwyr, ac ar eu traws, a monitro cyrchfannau dysgwyr

A3 Sicrhau bod y Gymraeg a'i diwylliant yn cael eu gwreiddio'n briodol o fewn cynnig a chyrsiau'r cwricwlwm

A4 Gweithredu arsylwi a chymedroli ar draws y bartneriaeth i feithrin dealltwriaeth ar y cyd o ansawdd yr addysgu a'r dysgu

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y darparwr yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn adolygu cynnydd y darparwr.

Bydd Estyn yn gwahodd y darparwr i baratoi astudiaeth achos ar ei waith yn gysylltiedig â'i gwrs Blodeuwriaeth yn y Gwaith i'w lledaenu ar wefan Estyn. Nod y cwrs hwn yw darparu medrau creadigol ac entrepreneuraidd ar gyfer dysgwyr er mwyn iddynt naill ai weithio mewn siop flodau neu sefydlu eu busnesau eu hunain. Caiff gwaith ar wella medrau llythrennedd, rhifedd a digidol dysgwyr ei wreiddio yn y cwrs.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Mewn dosbarthiadau ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol, mae bron pob un o'r dysgwyr yn cysylltu'r cysyniadau y maent yn eu dysgu yn ddefnyddiol â bywyd bob dydd. Er enghraifft, mewn sesiynau rhifedd, mae dysgwyr yn cymhwyso cysyniadau'n dda i dasgau bob dydd, fel diwygio cyfran y cynhwysion mewn ryseitiau neu fesur deunydd i wneud lliain bwrdd. Mewn sesiynau digidol, mae dysgwyr yn llenwi ffurflenni ar-lein, sy'n eu helpu i wneud cais am fudd-daliadau, er enghraifft.

Mewn dosbarthiadau ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol, mae dysgwyr yn cwblhau asesiad cychwynnol i bennu eu lefelau medrau ar ddechrau eu rhaglenni. Mae llawer o ddysgwyr yn dechrau â lefelau isel o fedrau llythrennedd neu rifedd. At ei gilydd, mae dysgwyr yn gwneud cynnydd amrywiol o ran y cyfraddau y maent yn gwella'u medrau arnynt. Mae lleiafrif o ddysgwyr yn gwneud cynnydd rhy araf. Mae hyn yn rhannol oherwydd nad yw'r gwaith a osodir yn ddigon heriol. Mae ychydig o ddysgwyr eraill yn gwneud cynnydd araf oherwydd nad ydynt yn cofio eu dysgu blaenorol yn ddigon da i weithio'n annibynnol ar dasgau.

Mae bron pob un o'r dysgwyr SSIE yn cwblhau asesiadau cychwynnol ac yn dechrau cyrsiau sy'n briodol i'w lefel. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr SSIE yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn yn eu medrau iaith ar lafar ac yn ysgrifenedig. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr ar gyrsiau lefel cyn-mynediad yn gwrando'n ofalus ar Saesneg llafar ac yn ynganu seiniau Saesneg yn dda. Maent yn datblygu goslef ac ynganiad clir, ac mae hyn yn rhoi sylfaen gadarn iddynt wneud cynnydd arni. Mae dysgwyr lefel mynediad yn darllen ac yn deall brawddegau syml yn gysylltiedig â phynciau bob dydd, fel bwyd a siopa, yn dda. Maent yn llunio brawddegau sy'n ramadegol gywir. Mae dysgwyr lefel uwch yn defnyddio amrywiaeth o wahanol ferfau (gwneud, chwarae, mynd, darllen) ac amserau yn gywir i fynegi pa weithgareddau maent yn eu gwneud a ddim yn eu gwneud. Maent yn gallu gofyn ac esbonio p'un a yw gweithgareddau'n iach ai peidio. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr o bob lefel yn gallu darllen a deall Saesneg yn briodol i'w lefel. Mae bron pob un o'r dysgwyr SSIE yn ymgysylltu'n dda â'u dysgu ac yn gweithio'n frwdfrydig ac yn barchus â'u cyfoedion.

Mewn sesiynau dysgu i deuluoedd, mae mamguod a thadcuod, rhieni a'u plant yn gweithio gyda'i gilydd yn ysgol y plant. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr sy'n oedolion mewn dysgu i deuluoedd yn gwneud cynnydd da mewn sesiynau. Maent yn datblygu dealltwriaeth dda o sut i strwythuro gweithgareddau i'w gwneud yn hwyl a datblygu dysgu eu plant trwy adrodd storïau, gweithgareddau darllen ar y cyd, cyfrif a rhesymu geiriol. Mae llawer o ddysgwyr sy'n oedolion yn gwella'u dealltwriaeth o'r hyn sy'n cael ei addysgu yn yr ysgol, a sut y caiff ei addysgu, ac o ganlyniad, gallant helpu eu plant eu hunain yn well. Mae ychydig o ddysgwyr sy'n oedolion sydd wedi cael sesiynau dysgu i deuluoedd yn mynd ymlaen i ddilyn cyrsiau sy'n briodol i'w hanghenion a'u diddordebau eu hunain i wella'u dysgu eu hunain a'u cyfleoedd mewn bywyd.

Mae llawer o ddysgwyr yn mwynhau ystod eang o ddarpariaeth ymgysylltu, sy'n helpu datblygu diddordebau personol. Er enghraifft, mewn cyrsiau blodeuwriaeth a blodeuwriaeth ar gyfer gwaith, mae dysgwyr yn datblygu medrau crefft cryf, ac maent

yn creu trefniadau blodau tymhorol ar gyfer priodasau, gwyliau a dathliadau Nadolig. Mewn blodeuwriaeth ar gyfer gwaith, mae dysgwyr yn datblygu gwerthfawrogiad defnyddiol o gostau deunyddiau a'u hamser eu hunain, a sut i brisio'u gwaith. Mae ychydig o ddysgwyr yn defnyddio'r medrau hyn i sefydlu eu busnesau eu hunain. Mewn cyrsiau 'coginio ar gyllideb', mae dysgwyr yn ymarfer a datblygu technegau coginio ac yn ehangu'r amrywiaeth o fwyd y gallant ei goginio, gan gyfrifo'r costau'n effeithiol iddyn nhw eu hunain a'u teuluoedd.

Mae'r bartneriaeth yn cyflwyno ychydig iawn o ddosbarthiadau ar-lein. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn ymgysylltu'n dda ac yn hyderus i ddefnyddio platfformau dysgu ar-lein y partneriaid. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, mae dysgwyr yn ei chael yn anodd galw dysgu blaenorol i gof, ac nid ydynt yn dangos dealltwriaeth gadarn o fedrau TG sylfaenol. Mae hyn yn arafu cyflymdra eu dysgu. Er enghraifft, mewn dosbarth TG ar-lein, ni all dysgwyr gwblhau tasgau rheoli ffeil heb gymorth y tiwtor, ac mae hyn yn rhwystro eu gallu i ymgysylltu â'r wers.

Nid yw'r bartneriaeth yn cynnig unrhyw ddarpariaeth yn benodol trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae ychydig iawn o ddysgwyr sy'n siarad Cymraeg yn sgwrsio â'u cyd-ddysgwyr yn Gymraeg neu'n defnyddio'r Gymraeg fel rhan o'u gwaith creadigol. Er enghraifft, mae dysgwr caligraffeg yn llunio testunau Cymraeg â darluniau. Mae dysgwyr ar gyrsiau dysgu i deuluoedd yn cyfrif yn Gymraeg gyda'u plant. Fodd bynnag, at ei gilydd, ychydig iawn o ddysgwyr sy'n ymarfer, defnyddio neu ddatblygu eu medrau Cymraeg fel rhan o'r ddarpariaeth.

Mae data'r bartneriaeth yn dangos bod dysgwyr sy'n astudio dros gyfnod yn y bartneriaeth yn symud ymlaen i lefelau astudio uwch ar gyfradd gadarn. Fodd bynnag, nid yw'r bartneriaeth yn gwerthuso cyfraddau cynnydd dysgwyr na'u cyrchfannau ar ddiwedd y cyfnod astudio yn ddigon systematig i lywio cynllunio'r ddarpariaeth yn effeithiol.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Mae gan y bartneriaeth ethos cryf o gefnogi lles dysgwyr. Mae ganddi nod trosfwaol i ddatblygu dysgwyr i fod yn bobl hyderus a chyflawn sy'n cyfrannu'n bwrpasol at gymdeithas.

Ers y pandemig, mae llawer o ddysgwyr yn dangos ystod eang o broblemau lles negyddol, gan gynnwys pryderon am iechyd, straen, gorbryder, dibyniaeth ar alcohol, ac amrywiaeth o broblemau ariannol a chymdeithasol sy'n cael eu gwaethygu gan yr argyfwng ariannol.

Fe wnaeth ystod y cymorth a gynigiwyd gan y bartneriaeth yn ystod y pandemig, a oedd yn cynnwys cadw mewn cysylltiad â dysgwyr ynysig a danfon parseli bwyd, gynyddu gallu dysgwyr i barhau â'u dysgu, a goresgyn ynysigrwydd mewn llawer o achosion. Helpodd y camau hyn i gynorthwyo dysgwyr â heriau sylweddol yn eu bywydau.

Mae'r bartneriaeth wedi parhau â'i phryder am les dysgwyr i mewn i'r cyfnod adfer ar ôl y pandemig. Yn wahanol i'r gorffennol, mae dysgwyr coleg rhan-amser yn awr yn gallu elwa'n llawn ar anogwr bugeiliol y coleg, a gallant gael eu cyfeirio at wasanaethau eraill y coleg, er enghraifft ar gyfer cwnsela neu gyngor ariannol. Mae

dysgwyr yn gwerthfawrogi cyfleusterau sy’n cael eu sefydlu gan ddarparwyr yn y bartneriaeth. Yn y grŵp ymgysylltu ac ar y llinell gymorth ddynodedig, gall dysgwyr siarad â thiwtoriaid am faterion ehangach, er enghraifft sut i hawlio lwfansau tanwydd neu gael mynediad at fanciau bwyd, yn ogystal â’u hanghenion dysgu, fel angen cymorth i ddatrys problemau digidol.

Mae grwpiau dysgu i deuluoedd wedi cynorthwyo menywod ethnig lleiafrifol trwy ddarparu lleoedd diogel iddynt ddysgu. O ganlyniad i gynnig i ddarparu cymorth unigol i un fenyw, mynychodd y fenyw, gan ddod â phump o ffrindiau gyda hi. Ymatebodd y Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes trwy sefydlu a chefnogi’r grŵp. Cafodd hyn effaith sylweddol ar les y menywod, ac mae wedi agor eu bywydau i gyfleoedd newydd.

Mae dadansoddiad o amrywiaeth o ymgynghoriadau llais y dysgwr yn dangos bod gan ddysgwyr ar gyrsiau diddordeb personol amrywiaeth o resymau am fynychu. Mewn llawer o achosion, dywed dysgwyr fod y cyrsiau hyn yn cynyddu eu hunan-barch a theimladau lles cyffredinol. Ceir llawer o enghreifftiau lle mae dysgwyr wedi magu’r hyder a’r medrau ar y cyrsiau hyn i symud i hunangyflogaeth, i lefelau dysgu eraill neu i rolau gwirfoddoli.

Mae dysgwyr hŷn sy’n mynychu cyrsiau yn llawn cymhelliant ac yn siarad yn huawdl ac yn angerddol am y buddion corfforol, cymdeithasol a gwybyddol iddyn nhw. Mae gweithgareddau o’r fath yn eu helpu i barhau i gyfranogi’n llawn ac yn weithgar yn y gymdeithas.

Mae bron pob un o’r dysgwyr yn adlewyrchu dyheadau’r bartneriaeth i ddysgwyr fod yn barchus, bod yn barod i ddysgu ac aros yn ddiogel. Mae bron pob un o’r dysgwyr yn frwdfrydig ynghylch ennill gwybodaeth a medrau newydd. Mae’r rhan fwyaf o ddysgwyr yn mynychu’n dda. Maent yn werthfawrogol o’r cyfle i ddysgu ac yn gweithio’n sylwgar yn y dosbarth. Maent yn uniaethu’n dda â’u tiwtoriaid, ac yn gwerthfawrogi’r cyfleoedd a’r cymorth addysgol a gynigir iddynt.

Mae bron pob un o’r dysgwyr yn cyfrannu at drafodaethau ac yn cwblhau tasgau dynodedig yn ystod sesiynau ac ar gyfer gwaith cartref. Maent yn cydweithredu ac yn cefnogi dysgu ei gilydd. Mae dysgwyr mewn cyrsiau SSIE amlethnig yn gweithio gyda’i gilydd yn dda ac yn parchu amrywiaeth. Mae bron pob un o’r dysgwyr SSIE yn awyddus i ddysgu Saesneg er mwyn iddynt allu bod yn effeithiol yn y gweithle, cynorthwyo eu teuluoedd a chymryd rhan fel aelodau o’r gymdeithas leol.

Mae llawer o ddysgwyr yn cyfrannu’n dda at weithgareddau llais y dysgwr ac mae’r bartneriaeth wedi cymryd camau cadarnhaol i wneud gwelliannau neu ddatblygu mentrau newydd, fel rhoi benthyg cyfrifiaduron am chwe wythnos a mynediad Wi-Fi ar gyfer dysgwyr coleg.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae’r bartneriaeth dysgu oedolion yn y gymuned yn gweithio’n dda gyda’i gilydd i gynnig ystod eang o gyrsiau i ddiwallu anghenion dysgwyr ar draws dinas a sir Abertawe. Mae bron pob un o’r cyrsiau a gynigir gan y bartneriaeth yn cael eu hariannu, ac maent yn galluogi dysgwyr i ennill cymwysterau priodol. Mae cyrsiau a ariennir yn canolbwyntio ar fedrau llythrennedd, rhifedd a digidol, SSIE, a dysgu i

deuluoedd. Mae'r bartneriaeth hefyd yn cynnig ystod eang o raglenni ymgysylltu a diddordebau personol defnyddiol, fel creu dillad, hylendid bwyd, ioga, coginio i'r teulu, chwarae iwcalili ac arlunio. Mae dysgwyr sy'n dilyn cyrsiau diddordeb personol, fel gof arian, yn talu am y cyrsiau eu hunain. Mae'r bartneriaeth wedi gwneud defnydd da o gyllid ychwanegol i sicrhau bod dysgwyr ar incymau is hefyd yn gallu dilyn cyrsiau diddordeb personol, er enghraifft blodeuwriaeth. Yn ogystal â datblygu medrau newydd, mae'r cyrsiau'n cynnig cyfleoedd i ddysgwyr ryngweithio'n gymdeithasol â phobl eraill, a chyflogaeth.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn mynychu dosbarthiadau mewn ystod eang o leoliadau ledled yr ardal. Mae hyn yn rhoi'r dewis i ddysgwyr fanteisio ar ddarpariaeth o fewn eu cymunedau. Mae dosbarthiadau a gynigir ar-lein neu drwy ymagwedd dysgu cyfunol yn gyfyngedig. Mae'r cyrsiau ar-lein yn gweddu i anghenion ychydig o ddysgwyr yn dda gan eu bod yn helpu dysgwyr i gyfuno'u dysgu â'u ffordd o fyw, ac yn galluogi dysgwyr o rannau eraill o Gymru a thu hwnt i gymryd rhan.

Fel Dinas Noddfa, mae nifer y ffoaduriaid yn yr ardal wedi codi'n sylweddol, ac mae'r bartneriaeth wedi ymateb yn brydlon trwy ddarparu nifer gynyddol o ddosbarthiadau SSIE a gweithgareddau eraill sy'n cefnogi lles a chydlyniant cymdeithasol. Mae'r bartneriaeth yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i gynllunio darpariaeth SSIE briodol. Mae cyrsiau SSIE rhan-amser ar draws y bartneriaeth wedi dyblu dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Cyflwynodd y coleg raglenni SSIE+ tra ystyriol ym mis Medi 2022 i gynorthwyo'r rhai sydd eisiau symud ymlaen i ddarpariaeth addysg bellach brif ffrwd a dysgu medrau ar gyfer gwaith, yn ogystal â'r iaith. Mae'r cynnig newydd yn cynnwys tri llwybr galwedigaethol, sef: iechyd a gofal cymdeithasol, busnes, a'r celfyddydau gweledol. Cafodd y penderfyniad i gynnig y llwybrau newydd hyn ei lywio gan gyfleoedd am swydd, a phoblogrwydd. Caiff elfennau galwedigaethol y rhaglen eu cyflwyno gan arbenigwyr pwnc. Cynhelir y cyrsiau yn ardaloedd y coleg lle cynhelir darpariaeth brif ffrwd i helpu dysgwyr SSIE i integreiddio â dysgwyr eraill a chefnogi eu cyfnod pontio.

Mae gwasanaeth dysgu gydol oes yr awdurdod lleol yn gweithio'n dda gyda nifer o ysgolion ledled y rhanbarth i gyflwyno rhaglenni dysgu i deuluoedd mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg ac ysgol arbennig bob oed. Fodd bynnag, nid oes unrhyw weithgarwch mewn ysgolion cynradd nac ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg nac ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg ar hyn o bryd.

Mae Addysg Oedolion Cymru yn gweithio'n effeithiol gydag ysgolion a Chanolfan y Gymuned Affricanaidd i ddatblygu a chyflwyno rhaglenni dysgu i deuluoedd ar gyfer y rhai ag anghenion SSIE. Mae hyn yn helpu rhieni i wella'u Saesneg a chynorthwyo eu plant oedran ysgol heb fod angen dod o hyd i ofal plant ar gyfer brodyr neu chwiorydd iau, sy'n aml yn rhwystr rhag dysgu i lawer yn y gymuned SSIE.

Mae gan y bartneriaeth ddyhead i ymgysylltu â dysgwyr yn llawnach mewn datblygu a dylunio'r ddarpariaeth. Mae Addysg Oedolion Cymru wedi ymestyn y gynrychiolaeth ar ei fforwm iechyd a lles i gynnwys cynrychiolydd dosbarth a dirprwy i gynyddu manylder adborth gan ddysgwyr ar ddarpariaeth. Mae dysgwyr a dinasyddion ledled y sir hefyd wedi cyfrannu at y drafodaeth am addysg a dysgu gydol oes trwy brosiect 'Coeden Dysgu Gydol Oes' ('Tree of Lifelong Learning'), sy'n ceisio deall rhesymau dysgwyr am barhau i ddysgu trwy gydol eu hoes.

Caiff cyrsiau eu cynllunio'n gynhwysfawr. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae tiwtoriaid yn cynllunio'n effeithiol i ddiwallu anghenion amrywiol y dysgwyr. Er enghraifft, mewn sesiwn SSIE, mae'r tiwtor yn ystyriol o'r ffaith nad yw llawer o ddysgwyr efallai'n llythrennog yn eu hiaith gyntaf, ac efallai nad ydynt yn gyfarwydd â'r sgript Saesneg. Felly, mae'r tiwtor yn cyflwyno darllen ac ysgrifennu yn ofalus ac ar lefel briodol i gefnogi dysgu.

Mae tiwtoriaid yn trefnu gweithgareddau'n dda yn y rhan fwyaf o sesiynau trwy rannu amcanion, rhoi cyfarwyddiadau clir, modelu disgwyliadau a thasgau, a gwirio dealltwriaeth dysgwyr o gysyniadau. Yn y rhan fwyaf o sesiynau, mae adnoddau'n briodol. Mewn gwers flodeuwriaeth, mae digonedd o adnoddau, maent o ansawdd da, ac yn rhad ac am ddim i ddysgwyr. Mewn sesiwn datblygiad personol yn y gymuned, mae'r tiwtor yn gwneud defnydd effeithiol o offer digidol sy'n cefnogi dysgu. Mewn ychydig iawn o sesiynau, mae tiwtoriaid yn paratoi a chyflwyno gweithgareddau ac adnoddau yng nghyd-destun diwylliant Cymru.

Mae llawer o diwtoriaid yn cynllunio eu sesiynau'n dda i ddiwallu anghenion dysgwyr. Maent yn defnyddio technegau holi effeithiol, ac yn caniatáu amser priodol i ddysgwyr ymateb a ffurfio atebion. Mae hyn yn annog pob un o'r dysgwyr i gyfrannu. Mewn lleiafrif o sesiynau, nid yw tiwtoriaid yn sicrhau bod pob dysgwr yn cael cyfle i ateb cwestiynau. O ganlyniad, mae ychydig iawn o ddysgwyr yn rheoli'r sesiwn er anfantais dysgwyr eraill.

Bron ym mhob sesiwn, mae tiwtoriaid yn canmol ac yn annog yn briodol, sy'n cynorthwyo dysgwyr i gyfrannu'n hyderus yn y dosbarth. Yn y rhan fwyaf o wersi SSIE a diddordeb personol, mae tiwtoriaid yn annog meddwl yn annibynnol ac yn datblygu medrau meddwl beirniadol trwy ofyn cwestiynau treiddgar, gan annog dysgwyr i gyfiawnhau atebion a barn, a gwahodd dysgwyr i adrodd yn ôl i'w gilydd a rhoi adolygiad o waith ei gilydd. Fodd bynnag, mewn ychydig o sesiynau medrau, nid yw tiwtoriaid yn darparu digon o gyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu medrau meddwl yn annibynnol a medrau datrys problemau, ac nid ydynt ychwaith yn rheoli cyflymdra'r sesiwn yn ddigon da i sicrhau bod pob dysgwr yn cael ei herio'n ddigonol.

Mae tiwtoriaid yn cyflwyno a rheoli adborth mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys ar lafar, mewn ffurf ysgrifenedig, trwy blatfformau digidol byw, a thrwy weithgareddau rhwng cyfoedion. Mewn dosbarth ffotograffiaeth, mae'r tiwtor yn adolygu ffotograffau dysgwyr, gan gynnig cyngor defnyddiol ac ennyn dysgwyr eraill i feirniadu gwaith eu cyfoedion yn adeiladol. Mae ychydig o diwtoriaid yn rhoi adborth ysgrifenedig unigol manwl i ddysgwyr i'w helpu i wella eu medrau yn y maes pwnc.

Mae gan lawer o diwtoriaid systemau ar waith i olrhain a monitro mannau cychwyn, nodau a chynnydd dysgwyr hyd yma. Mae'r systemau hyn yn cynnwys offer fel profion diagnostig i asesu cynnydd yn erbyn meini prawf achredu, asesiadau yn y dosbarth, a thaflenni olrhain. Pan ddefnyddir cynlluniau dysgu unigol, mae sylwadau a thargedau tiwtoriaid yn aml yn rhy generig ac nid ydynt mor effeithiol fel cyfrwng i gefnogi anghenion dysgu unigol.

### Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae pob partner o fewn y bartneriaeth yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol i gynghori ac arwain darpar ddysgwyr i ddewis y cyrsiau mwyaf priodol iddyn nhw. Mae

prosbectysau a gwefannau unigol darparwyr yn cynnwys gwybodaeth werthfawr am ddisgwyliadau dysgwyr, yn ogystal â'r ymrwymiad a'r gwasanaeth y gallant ei ddisgwyl gan ddarparwyr. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, nid oes gwefan gyffredinol gan y bartneriaeth lle gall dysgwyr fynd at yr holl wybodaeth am y cyrsiau a gynigir o un man. Mae ychydig o ddysgwyr hŷn yn teimlo'n gryf fod gormod o ddibyniaeth ar gofrestr electronig ar gyfer cyrsiau, sy'n gallu bod yn ddryslyd neu'n anodd iddynt ei defnyddio os nad oes ganddynt fynediad at y rhyngrwyd.

Mae sefydliadau partner unigol yn cynnig cymorth personol ac arbenigol gwerthfawr i ddysgwyr ac yn gweithio gyda'i gilydd yn briodol i barhau i gynorthwyo dysgwyr sy'n symud rhyngddynt. Mae'r coleg addysg bellach wedi gweithio'n effeithiol i sicrhau bod dysgwyr rhan-amser yn cael yr un cymorth ac arweiniad â dysgwyr amser llawn.

Gwireddwyd y set gref ac ymatebol hon o gamau i gefnogi lles dysgwyr oherwydd y gwaith partneriaeth effeithiol ar lefel weithredol. Mae hyn yn cynnwys ehangu a chryfhau'r bartneriaeth dysgu oedolion yn y gymuned gyda grŵp ehangach o wasanaethau'r cyngor ac asiantaethau allanol. Trwy weithio gydag adrannau eraill y Cyngor, fel Grŵp Gweithredu i Deuluoedd y Cyngor, y Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid (EYST), Grŵp Cymorth ar gyfer Ceiswyr Lloches Abertawe, y Grŵp Cymorth Amlasiantaethol i Ffoaduriaid, prosiect REACH, cymdeithasau tai, a'r cyngor ffoaduriaid, gall darparwyr fanteisio ar gymorth ar gyfer dysgwyr dan anfantais a dysgwyr hŷn, sy'n ymarferol ac yn cynyddu eu lles. Ceir enghreifftiau niferus o diwtoriaid yn cefnogi lles dysgwyr y tu allan i sesiynau, er enghraifft trwy eu helpu i gael mynediad at ffonau clyfar, cyfrifiaduron llechen a data trwy'r Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol a Chymdeithas Tai Hafod. Mae partneriaid yn cynnig cymorth ariannol sy'n helpu dysgwyr i oresgyn rhwystrau ariannol rhag eu dysgu neu'u datblygiad personol. Er enghraifft, mae'r coleg addysg bellach yn goleg noddfa ac yn cynnig cymorth buddiol i geiswyr lloches a ffoaduriaid. Dileodd y Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes yn yr awdurdod lleol y ffioedd yn ystod y pandemig, ac mae wedi gostwng ffioedd yn sylweddol ers hynny i gynnal ymgysylltiad dysgwyr. Roedd mwyafrif y rhai a gofrestrodd ar gyrsiau yn ystod 2022-2023, adeg yr arolygiad, yn ddysgwyr newydd.

Mae darparwyr unigol o fewn y bartneriaeth yn cynnig cyngor ac arweiniad priodol i ddysgwyr ynglŷn â chyfleoedd cynnydd. Mae'r grŵp gweithredol yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn ystyried cynnydd yn briodol. Er enghraifft, mae partneriaid yn cyfeirio dysgwyr SSIE neu ddysgwyr addysg sylfaenol i oedolion at ddosbarthiadau sy'n addas i'w lefel a'u hanghenion. Maent yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithlon i gynorthwyo dilyniant dysgwyr i gyrsiau achrededig, grwpiau sgwrsio anffurfiol, grwpiau menywod yn unig, neu sesiynau gan Grŵp Cymorth ar gyfer Ceiswyr Lloches Abertawe. Mae'r bartneriaeth yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i gyfeirio dysgwyr at y ddarpariaeth SSIE fwyaf priodol cyn gynted ag y bo modd. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid oes mecanwaith ar draws y bartneriaeth i olrhain cynnydd i astudio ymhellach neu i gyflogaeth. Yn ychwanegol, mae cofnodi cynnydd ar gynlluniau dysgu unigol yn anghyson o fewn darparwyr y bartneriaeth, ac ar eu traws.

Mae llawer o ddysgwyr ar gyrsiau SSIE yn elwa ar eu rhyngweithio â dysgwyr eraill o wledydd o bob cwr o'r byd, yn ogystal â chyfarwyddyd ar ddiwylliant a gwerthoedd Cymru. Mae hyn yn ei dro yn datblygu eu dealltwriaeth o'r gymuned leol a'r byd ehangach a phwysigrwydd parch at bobl eraill.

Mae darparwyr o fewn y bartneriaeth yn hyrwyddo dewisiadau am ffordd iach o fyw yn ddefnyddiol mewn cyrsiau ar fwyta'n dda ac yn ddarbodus. Mae cyrsiau datblygiad personol yn gwella hyder a medrau dysgwyr tra'n hyrwyddo cynaliadwyedd. Er enghraifft, mae dysgwyr yn ymfalchïo mewn uwchgylchu hen ddillad gwely a dillad i greu baneri.

Mae'r bartneriaeth yn cynnig arweiniad gwerthfawr ar ddiogelwch ar-lein i ddysgwyr a thiwtoriaid, sy'n adlewyrchu twf a phwysigrwydd parhaus dysgu ar-lein ers dechrau pandemig COVID-19.

Mae darparwyr unigol yn gweithredu mecanweithiau addas i sicrhau bod ystod eang o ddysgwyr yn cyfrannu'n effeithiol at benderfyniadau ynglŷn â'u dysgu. Fodd bynnag, nid yw ymagwedd y bartneriaeth at gael proses gyson ar draws y bartneriaeth o ran llais y dysgwr wedi'i datblygu'n ddigonol.

Mae darparwyr yn cynnig hyfforddiant gwerth chweil ar ddiogelu a phroblemau'n ymwneud ag eithafiaeth a radicaleiddio. Mae eu trefniadau ar gyfer diogelu dysgwyr yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth**

Mae Partneriaeth Dysgu Oedolion Abertawe (ALPS) yn cynnwys saith prif ddarparwr yn ardal dinas a sir Abertawe. Ceir strwythur clir o ran arweinyddiaeth a rheolaeth. Mae gan y bartneriaeth ddealltwriaeth dda o flaenoriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, fel yr ymdrech am degwch mewn dysgu a chymorth mewn addysg i fynd i'r afael ag effaith tlodi ac amddifadedd, ac mae'n gweithio'n effeithiol i fodloni'r rhain. Mae ganddi gynghreiriau cryf â llawer o ddarparwyr eraill yn yr ardal, er enghraifft sefydliadau gwasanaethau gwirfoddol, y mae'n gweithio'n dda â nhw i ddiwallu anghenion dysgwyr.

Yn ddiweddar iawn, mae'r grŵp gweithredol wedi ymgymryd â rôl a'r cyfrifoldeb arweiniol i sicrhau bod dysgwyr yn gallu mynychu dosbarthiadau ar-lein trwy gydol y pandemig. O ganlyniad i'r gwaith hwn, a chyfres ddiweddar o ddigwyddiadau dysgu oedolion ledled Abertawe, mae nifer gynyddol o ddysgwyr wedi dychwelyd i ddysgu wyneb i wyneb.

Mae hunanasesiad y bartneriaeth yn agored ac yn myfyrio'n onest ar gynnydd yn y blynyddoedd diwethaf. Mae'r bartneriaeth yn cydnabod bod angen gwreiddio'r cyfeiriad strategol newydd sy'n ystyried newidiadau mewn amgylchiadau economaidd. Mae'r bartneriaeth yn cydnabod bod cyfarfodydd y grŵp strategol wedi bod yn llai rheolaidd a bod angen i'r grŵp strategol graffu'n well ar ddarpariaeth i sicrhau ei hansawdd a'i pherthnasedd. Mae'n cydnabod ymhellach fod angen sefydlu grwpiau i fonitro a sicrhau ansawdd cyffredinol darpariaeth y bartneriaeth a datblygiad cyrsiau cyfrwng Cymraeg a llythrennedd, ac nid yw wedi gwneud llawer o gynnydd â chyrsiau llythrennedd ers yr adroddiad arolygu diwethaf. Mae'r cynllun datblygu ansawdd yn amlinellu'r materion allweddol ar y cyd y bydd y bartneriaeth yn mynd i'r afael â nhw. Fodd bynnag, mae'r adroddiad hunanasesu a'r cynllun datblygu ansawdd yn ddogfennau diweddar, ac o ganlyniad, nid yw'r cynllun datblygu ansawdd yn darparu tystiolaeth am gynnydd y bartneriaeth yn erbyn y cerrig milltir.

Mae gan bob darparwr yn y bartneriaeth brosesau sicrhau ansawdd ar waith i sicrhau ansawdd ei addysgu, ei ddysgu a'i ddarpariaeth ei hun. At ei gilydd, mae gan bob darparwr ddealltwriaeth gadarn o ansawdd yr addysgu a'r dysgu yn ei ddarpariaeth. Serch hynny, mae'r bartneriaeth yn cydnabod bod angen ailsefydlu'r cynllun arsylwi a chymedroli ar draws partneriaid i sicrhau ansawdd a thegwch ar draws y bartneriaeth i ddeall ansawdd darpariaeth y bartneriaeth gyfan yn well.

Mae tiwtoriaid sy'n gweithio i Bartneriaeth Dysgu Oedolion Abertawe yn meddu ar gymwysterau da ac maent yn wybodus am eu pynciau. Yn ystod y pandemig, cefnogodd darparwyr iechyd a lles y tiwtoriaid trwy ystod o gyrsiau ar-lein. Manteisiodd y rhan fwyaf o diwtoriaid ar y cyfleoedd dysgu proffesiynol a gynigiwyd gan eu darparwr i wella eu medrau addysgu digidol ac ar-lein. Wrth ddychwelyd i addysgu wyneb yn wyneb, mae llawer o diwtoriaid wedi trosglwyddo'r medrau hyn i'r ystafell ddosbarth i'w helpu i gynnig ystod ehangach o weithgareddau a deunyddiau cyflwyno. Er enghraifft, mewn ychydig o ddosbarthiadau SSIE, mae tiwtoriaid yn defnyddio meddalwedd sy'n eu galluogi i gyflwyno lluniau cyfoes o ansawdd da, sy'n symbylu gwaith siarad. Mae ychydig o diwtoriaid hefyd wedi cyflwyno meddalwedd sy'n galluogi dysgwyr i brofi eu gwybodaeth trwy gystadleuaeth hwyliog i weld pwy sy'n cael yr atebion mwyaf cywir yn yr amser cyflymaf. Fodd bynnag, prin fu'r cyfleoedd ar gyfer digwyddiadau dysgu ar draws y bartneriaeth, lle gall tiwtoriaid ar draws y bartneriaeth elwa ar rannu eu profiadau a'u syniadau addysgu gyda'u cyfoedion.

Mae uwch arweinwyr ym Mhartneriaeth Dysgu Oedolion Abertawe yn meddu ar ddealltwriaeth dda o faterion ariannol yn gysylltiedig â chyllido dysgu oedolion yn y gymuned. At ei gilydd, mae partneriaid yn defnyddio eu ffrydiau cyllido unigol mewn ffordd ategol i ddarparu cyrsiau sy'n addas i ddiwallu anghenion a dyheadau dysgwyr. Mae'r gwasanaeth wedi defnyddio cyllid ymgysylltu gan Lywodraeth Cymru yn effeithiol i ddarparu cyrsiau a deunyddiau am gost isel iawn i alluogi dysgwyr ar incymau isel i ymgysylltu â dysgu o'r newydd a gwella eu rhagolygon cyflogadwyedd.

Mae gan Bartneriaeth Dysgu Oedolion Abertawe ystod eang o leoliadau. Mae llawer ohonynt wedi'u lleoli'n agos at ganol y ddinas neu wedi'u lleoli mewn cymunedau lleol, gan ganiatáu mynediad hawdd i ddysgwyr at ddosbarthiadau. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae lleoliadau'n groesawgar, yn cynnwys offer da at ddefnydd oedolion, wedi'u goleuo'n dda ac yn hygyrch.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o’r holiadur i ddysgwyr a’r holiadur i staff

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cyfarfod â chadeirydd y bartneriaeth, llywodraethwyr (lle bo’n briodol), uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol, i werthuso effaith gwaith y bartneriaeth
- yn cyfarfod â dysgwyr i drafod eu gwaith, a gwrando ar eu barn am agweddau amrywiol ar eu darparwr
- yn ymweld â sampl eang o sesiynau
- yn arsylwi dysgwyr y tu allan i sesiynau, ac yn siarad â nhw
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso’r bartneriaeth
- yn ystyried cynllun gwella ansawdd y bartneriaeth ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae’r bartneriaeth wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth eang o ddogfennau’r bartneriaeth, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd dysgwyr, cofnodion cyfarfodydd staff a’r corff llywodraethol (lle bo’n briodol), gwybodaeth am les dysgwyr, gan gynnwys diogelu dysgwyr, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi’r adroddiad, bu Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau’r arolygiad ochr yn ochr â’r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y bartneriaeth ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 77 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 07/03/2023